

face-ade

I nodi diwrnod olaf comisiwn Wal Pawb **Kevin Hunt**, rydym yn rhyddhau'r rysait sylfaenol ar gyfer ei ddiod boblogaidd 'face – ade', fel bod pawb yn medru parhau i'w creu yn eu cartrefi.

Cyfarwyddiadau Gwneud Surop Sylfaenol

(yn gwneud tua 2L o surop – digon ar gyfer 20 o ddiodydd)

- Dewiswch eich perlysiâu i roi blas ar eich surop (mae rhosmari, mint a basil yn gweithio'n arbennig o dda)
- Golchwch eich perlysiâu yn drylwyr
- Rhwygwch lond llaw o berlysiâu da i ryddhau eu arogl a'u rhoi mewn jwg 3L
- Ychwanegwch 4/5 o gwpanau o siwgr mân – gall hyn fod yn siwgr plaen neu wedi'i drwytho a sbeisys (gadewch fanila neu podiau cardamom yn eich siwgr i'w drwytho)
- Arllwyswch ddŵr berw yn syth o'r tegell i mewn i'r jwg nes iddo gyrraedd 2L
- Trowch yn drylwyr nes bod y dŵr yn llifo'n glir a'r siwgr wedi toddi
- Triwch daro'r perlysiâu gyda llwy yn achlysurol er mwyn rhyddhau olewau'r perlysiâu tra bod y surop yn datblygu
- Caniatewch i'r surop oeri'n llawn
- Unwaith yn oer, hidlwch y cymysgedd i mewn i jwg 2L gan ddefnyddio gogr
- Nawr, trosglwyddwch y surop i mewn i botel wag, glan a rhowch gaead arni
- Gellir cadw'r surop yn yr oergell am hyd at 2 wythnos

mwynhewch!

Cyfarwyddiadau Sylfaenol Ynghylch Gweini Diod

(i weini un cwpan o 'face - ade')

- Cymerwch un cwpan tal neu wydr a'i hanner llenwi gyda rhew
- Ychwanegwch 50ml o'r surop a ddewiswyd gennych
- Ychwanegwch 25ml o sudd sitrws – mae sudd gwahanol yn gweithio'n well gyda suddion blas gwahanol
- Ychwanegwch sbrigyn o berlysyn i'w addurno
- Ychwanegwch ddŵr byrlymus a throwch yn dda
- I wneud fersiwn alcoholig, ychwanegwch fesur o'ch hoff ddiod – mae gin yn gweithio'n dda
- I fynd ar drywydd anghyffredin, cyfnewidiwch y sudd sitrws ar gyfer sblasriad o hufen ddwbl!

tŷ pawb

*celf cartref
arts at home*